

ADOLYGIAD BLYNYDDOL O DDILYNIANT CYMHWYSEDD (ARCP)

POLISI AR GYFER ADOLYGIADAU AC APELIADAU

GOFAL EILAIDD AC YMARFER CYFFREDINOL

Awduron: Yr Athro Phil Matthews a Beverlea Frowen

Gorffennaf 2018

1. Cwmpas, Diben a Nodau'r Polisi

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu polisi Deoniaeth Cymru ar gyfer Adolygiadau o Ganlyniad 2 Adolygiad Blynyddol o Ddilyniant Cymhwysedd (ARCP), ac ar gyfer Apeliadau yn dilyn Canlyniad 3 neu 4. Mae'n ymwneud â cheisiadau gan hyfforddeion arbenigedd, gan gynnwys hyfforddeion ymarfer cyffredinol a gofal eilaidd a chanddynt Rif Cyfeirnod Deoniaeth Cymru (DRN). Mae trefniadau ar wahân ar waith ar gyfer Adolygiadau ac Apeliadau hyfforddeion Deintyddol a Sylfaen Feddygol. Mae'r polisi hefyd yn ymdrin â hyfforddeion o arbenigeddau bach iawn sy'n dymuno herio penderfyniadau a ddyfarnwyd iddynt gan Baneli ARCP rhanbarthol neu genedlaethol.

Mae graddfeydd amser a bwriadau rhifyn presennol y Canllaw Aur (Ionawr 2018) wedi cael eu hystyried wrth lunio'r polisi hwn. Mae'n bwysig hefyd cydnabod bod y polisi hwn yn canolbwyntio'n benodol ar Adolygiadau ac Apeliadau ARCP, ac felly dim ond rhan o'r continwmm dilyniant hyfforddeion i feddygon, a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig yn Neoniaeth Cymru, y mae'n ei chynrychioli.

Nodyn 1: Pryd bynnag y cyfeirir at y Deon Ôl-raddedigion, mae'n cyfeirio at y Deon Ôl-raddedigion neu ei gynrychiolydd enwebedig, a fydd yn gyfrifol am reoli'r broses Apelio ar ei ran.

*Nodyn 2: Bydd yr holl ohebiaeth, **heblaw am** y Pecyn Gwybodaeth Apelio, yn cael ei hanfon trwy e-bost.*

Nodyn 3: Cynhelir trafodion Adolygiad ARCP heb i'r hyfforddai fod yn bresennol.

Nodyn 4: Rhennir gwybodaeth sy'n berthnasol i'r Apêl yn unol â Pholisi Preifatrwydd Deoniaeth Cymru.

Nodyn 5: Am resymau logistaidd, cynhelir Adolygiadau ac Apeliadau ARCP yn Saesneg. Os yw hyfforddai'n dymuno rhoi tystiolaeth mewn Gwrandawriad Apêl yn Gymraeg, gellir darparu ar gyfer hyn, a rhaid nodi hynny pan wneir cais am Apêl. Bydd y Ddeoniaeth yn darparu ac yn ariannu cyfieithydd Cymraeg drwy gydol y cyfnod y bydd yr hyfforddai'n rhoi tystiolaeth.

Nodyn 6: Lle y pennir graddfa amser, bydd yn ddiwrnod gwaith (dydd Llun i ddydd Gwener) ac erbyn 5pm ar ddiwrnod y terfyn amser. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd gwybodaeth a dderbynnir y tu allan i'r raddfa amser hon yn cael ei hystyried.

Nodyn 7: Gellir lawrlwytho'r holl ffurflenni a chanllawiau o wefan Deoniaeth Cymru (<https://www.walesdeanery.org/cy>), a chynhelir pob gohebiaeth â Deoniaeth Cymru trwy gyfeiriad e-bost penodol: walesdeaneryappeals@caerdydd.ac.uk

RHAN UN: Adolygiadau o Ganlyniad 2 ARCP, a Cham Cyntaf y Broses Apelio ar gyfer Canlyniadau 3 a 4

2. Yr Hawl i gael Adolygiad o Ganlyniad ARCP

Dyfernir Canlyniad ARCP i hyfforddeion pan fernir eu cynnydd gan Baneli Adolygiadau Blynnyddol o Ddilyniant Cymhwysedd (ARCP). Gall hyfforddai wneud cais am Adolygiad o Ganlyniad 2 ARCP yn unig. Os yw hyfforddai'n cael Canlyniad 3 neu 4 ARCP, gall ofyn am Apêl; Adolygiad yw cam cyntaf y broses Apelio fel arfer, ac fe'i cynhelir mewn ffordd debyg i Adolygiad o Ganlyniad 2 ARCP.

Fel arfer, bydd y Tîm Llywodraethu Dilyniant Hyfforddeion (TPG) yn cael gwybod am yr [holl Ganlyniadau 2, 3 neu 4 ARCP](#) gan gydweithwyr y Ddeoniaeth mewn Gofal Eilaidd ac Ymarfer Cyffredinol. Bydd y Tîm TPG yn cadw cofnod at ddibenion monitro, ac fel rhybudd cynnar o geisiadau posibl am Adolygiadau ac Apeliadau.

Bydd pob hyfforddai sy'n cael Canlyniad 2, 3 neu 4 pan fyddant yn derbyn eu llythyr (trwy e-bost) gan Ddeoniaeth Cymru, yn rhoi gwybod iddynt am eu Canlyniad ARCP, yn cael gwybodaeth am sut i wneud cais am Adolygiad neu Apêl. Bydd y terfyn amser ar gyfer gwneud cais am Adolygiad neu Apêl yn dechrau o'r dyddiad ar y llythyr hysbysu am Ganlyniad ARCP (a anfonwyd trwy e-bost) gan Ddeoniaeth Cymru, ac [nid](#) dyddiad y cofnod yn eu E-bortffolio.

3. Diffiniad o Adolygiad

Proses yw Adolygiad pan fydd unigolyn neu grŵp a wnaeth benderfyniad yn wreiddiol yn edrych arno eto i ailystyried p'un a oedd yn briodol. Mae'n rhaid i'r Adolygiad ystyried sylwadau'r hyfforddai sy'n gofyn am yr Adolygiad ac unrhyw wybodaeth arall berthnasol nad oedd ar gael i'r Panel Adolygu ar adeg ei Adolygiad ARCP.

4. Gwneud Cais am Adolygiad

Mae'n rhaid i Ddeoniaeth Cymru dderbyn ceisiadau am Adolygiad **o fewn deng niwrnod gwaith** o'r dyddiad ar y llythyr hysbysu (a anfonwyd trwy e-bost) gan Ddeoniaeth Cymru, yn rhoi gwybod i'r hyfforddai am benderfyniad y Panel ARCP. Mae'n rhaid i hyfforddeion lenwi **Ffurflen Cais am Adolygiad ARCP**, sydd ar gael ar wefan Deoniaeth Cymru. Bydd y Tîm TPG yn cydnabod ei fod wedi derbyn y ffurflen gyflawn o fewn pum niwrnod gwaith. Mae'n bwysig bod yr hyfforddai'n darparu digon o wybodaeth i'r cais gael ei gymeradwyo ac i osgoi oedi. Os yw'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr hyfforddai'n annigonol, bydd y tîm TPG yn cael gwybodaeth ychwanegol gan yr hyfforddai o fewn 5 niwrnod gwaith. Pan fydd y cais am Adolygiad wedi cael ei dderbyn, bydd y tîm TPG yn cydlynu ac yn mynychu'r cyfarfod Adolygu ARCP mewn cysylltiad â Chadeirydd y Panel ARCP a'r rheolwr arbenigedd.

5. Paneli Rhanbarthol neu Genedlaethol

Os bydd yr hyfforddai'n dymuno cael Adolygiad o'r penderfyniad a ddyfarnwyd iddo gan Banel Rhanbarthol neu Genedlaethol, dylai gyflwyno cais i'r adran berthnasol sy'n [gweinyddu'r](#) panel

ARCP rhanbarthol neu genedlaethol. Bydd y Deon Ôl-raddedigion sy'n gyfrifol am yr hyfforddai (Deoniaeth Cymru yn yr achos hwn) yn cael gwybod am y cais ac, ar ôl i'r Adolygiad gael ei gwblhau, yn cael gwybod am y penderfyniad dilynol a dymuniadau'r hyfforddai wrth symud ymlaen.

6. Dyddiad ac Aelodaeth y Panel Adolygu

Bydd Deoniaeth Cymru yn ymdrechu i ailgynnull y Panel ARCP gwreiddiol **o fewn 10 niwrnod gwaith** o dderbyn y cais am Adolygiad. Os yw'n anodd cynnull y Panel ARCP gwreiddiol llawn o fewn y raddfa amser benodedig, ystyrir bod cworwm yn y Panel Adolygu os yw Cadeirydd y Panel ARCP gwreiddiol, ynghyd â lleiafswm o ddau aelod arall o'r Panel ARCP gwreiddiol, ar gael. Os nad yw Cadeirydd y Panel ARCP gwreiddiol ar gael, caiff y Deon Ôl-raddedigion benodi Cadeirydd newydd ar gyfer y Panel Adolygu; rhoddir gwybod i'r hyfforddai am y newid hwn trwy e-bost. Bydd aelod o'r Tîm TPG yn bresennol yn y cyfarfod Adolygu i gynorthwyo aelodau'r Panel, ond ni fydd yn rhan o'r Panel Adolygu. Os nad oedd aelod lleyg yn rhan o'r Panel ARCP gwreiddiol, gwahoddir aelod lleyg i fynychu hefyd.

7. Tystiolaeth Ychwanegol

Rhoddir gwybod i'r hyfforddai am ddyddiad yr Adolygiad. Bydd y tîm TPG yn paratoi pecyn Adolygu ar gyfer aelodau'r Panel. Bydd y pecyn hwn yn cynnwys y wybodaeth ychwanegol gan yr hyfforddai ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r Apêl nad oedd ar gael i'r Panel yn flaenorol.

Bydd y wybodaeth yn y pecyn Adolygu a'r llythyr penderfyniad ar gael hefyd, os bydd angen, i'w hystyried mewn Gwrandawriad Apêl.

8. Y Cyfarfod Adolygu

Y drefn a ffeirir yw i'r Cadeirydd, gyda chymorth gan y Tîm TPG, gynnal yr Adolygiad ARCP yn bersonol neu drwy fideo-gynadledda. Ni fydd yr hyfforddai'n mynychu'r Adolygiad. Cynhelir y cyfarfod mewn lleoliad sy'n gyfleus i'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr Adolygiad.

9. Penderfyniad y Panel Adolygu

Gall y Panel Adolygu gadarnhau'r holl Ganlyniadau gwreiddiol a ddyfarnwyd yng nghyfarfod y Panel ARCP, neu gall newid y Canlyniadau ARCP yn y modd canlynol:

- gall Canlyniad 2 gael ei newid i Ganlyniad 1, ond ni ellir ei drosi'n 3 neu 4;
- gall Canlyniad 3 gael ei newid i Ganlyniad 2, 1, neu 6;
- gall Canlyniad 4 gael ei newid i Ganlyniad 1, 2, 3, neu 6.

Bydd y Tîm TPG yn cofnodi'r trafodion a'r sail resymegol ar gyfer penderfyniad y Panel Adolygu. Gellir penderfynu unrhyw bryd nad oes cyfiawnhad i Ganlyniadau 2, 3, neu 4. Os felly, bydd ffeithiau'r achos yn cael eu cofnodi a'u cadw, ond bydd y Canlyniad yn cael ei ddiwygio i ddangos y safbwynt cytunedig yn unig, yn dilyn yr Adolygiad.

10. Rhoi Gwybod i'r Hyfforddai am Benderfyniad y Panel Adolygu.

Ar ôl i'r Adolygiad gael ei gwblhau, bydd y rheolwr TPG yn cyfarfod â'r Deon Ôl-raddedigion ac yn amlinellu argymhelliad y Panel Adolygu. Rhoddir gwybod i'r hyfforddai am y penderfyniad i gadarnhau neu newid y canlyniad gwreiddiol. Bydd llythyr manwl dilynol sy'n amlinellu'r sail resymegol ac unrhyw oblygiadau sy'n gysylltiedig â phenderfyniad yr Adolygiad yn cael ei anfon at yr hyfforddai cyn pen pum niwrnod gwaith o'r Adolygiad. Bydd copi o'r llythyr sy'n amlinellu'r penderfyniad, unrhyw ofynion a'r sail resymegol yn cael ei anfon at yr hyfforddai, ac anfonir copi ohono at Gadeirydd yr Adolygiad, Pennaeth yr Ysgol Arbenigedd, a'r Rheolwr Arbenigedd yn Neoniaeth Cymru.

Os yw'r Adolygiad ar gam cyntaf Apêl (Canlyniad 3 a Chanlyniad 4) ac nid yw'r hyfforddai'n derbyn y penderfyniad, mae'n rhaid iddo, o fewn 2 ddiwrnod gwaith, roi gwybod i Ddeoniaeth Cymru gan ddatgan ei resymau a chadarnhau ei fod eisiau symud ymlaen i Wrandawriad Apêl. Bydd y tîm TPG yn dechrau gwneud trefniadau ar gyfer Gwrandawriad Apêl fel y manylir yn Rhan Dau y polisi hwn.

RHAN DAU: Ceisiadau am Apêl

11. Egwyddorion Cyffredinol

Gwrandawriad Apêl ARCP yw cam olaf diwygiad posibl i Ganlyniad 3 neu 4 ARCP ar gyfer hyfforddai, o fewn awdurdodaeth Deoniaeth Cymru. Mae'n hanfodol bod Gwrandawriadau Apêl:

- yn cael eu cynnal mewn modd cyson ar gyfer pob arbenigedd;
- yn gadarn wrth ystyried y dystiolaeth a gwneud y penderfyniad terfynol;
- yn dilyn polisiau a gweithdrefnau a bennwyd o fewn y Ddeoniaeth.

12. Diffiniad

Gweithdrefn yw Apêl pan fydd penderfyniad un unigolyn, neu grŵp, yn cael ei ystyried gan unigolyn neu grŵp (gwahanol) arall. Gall Apêl ystyried gwybodaeth a oedd ar gael pan wnaed y penderfyniad gwreiddiol, yn ogystal â gwybodaeth a gyflwynwyd o'r newydd sy'n berthnasol i'r Apêl, a sylwadau'r hyfforddai. Ni chaiff aelodau'r Paneli ARCP ac Adolygu diweddaraf gymryd rhan yn y Gwrandawriad Apêl.

13. Gwneud Cais am Apêl Canlyniad 3 a 4

Dylai cais am Apêl ARCP gael ei dderbyn gan y Tîm TPG yn y Ddeoniaeth, gan ddefnyddio'r **Ffurflen Cais am Apêl ARCP**. Mae'r ffurflen hon ar gael ar wefan Deoniaeth Cymru. Mae'r broses o wneud cais am Apêl yr un fath ar gyfer hyfforddeion yr ymdrinnir â nhw gan Baneli ARCP rhanbarthol ac allanol gan fod y cyfrifoldeb am drefnu Gwrandawriad Apêl yn trosglwyddo i Ddeon Ôl-raddedigion Cymru.

14. Sail dros Apelio

Gall Sail dros Apelio gynnwys un neu fwy o'r canlynol:

- tystiolaeth berthnasol nad oedd ar gael i'r Panel ARCP gwreiddiol;

- pryderon ynglŷn â'r broses ARCP, gan gynnwys tuedd neu ragfarn ganfyddedig;
- pryderon ynglŷn â chamddehongli ffeithiau gan y Panel ARCP gwreiddiol;
- peidio â chael gwybod am Ganlyniad tebygol y Panel a'i ganlyniadau;
- pryderon eraill a restrwyd y mae'r hyfforddai'n credu eu bod yn teilyngu ystyriaeth fel sail resymol bosibl dros Apelio.

Mae'n rhaid i'r tîm TPG dderbyn y Ffurflen Cais am Apêl ARCP gyflawn ddim hwyrach na deng niwrnod gwaith o ddyddiad y llythyr hysbysu (a anfonwyd trwy e-bost) gan Ddeoniaeth Cymru ynghylch penderfyniad y Panel ARCP. Fe'i cydnabyddir o fewn pum niwrnod gwaith.

15. Hyfforddiant Trawsffiniol

Os yw hyfforddai wedi rhannu profiadau hyfforddi o fewn GIG Cymru a GIG Lloegr, ac mae'n dymuno Apelio, dylai'r cais gael ei gyflwyno i'r Deon Ôl-raddedigion yn Neoniaeth Cymru, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros berfformiad hyfforddeion.

16. Y Gymraeg

Gall yr hyfforddai, drwy hysbysu o flaen llaw, roi tystiolaeth yn Gymraeg yn ystod y Gwrandawriad Apêl. Bydd y Ddeoniaeth yn trefnu i gyfieithydd addas fynychu, gan ddefnyddio rhestr gydnabyddedig o ddarparwyr. Mae'r trefniant hwn ar gael ar gyfer y Gwrandawriad Apêl yn unig, a bydd Deoniaeth Cymru yn talu costau'r cyfieithydd.

17. Penderfyniad i Symud Ymlaen

Gallai'r Deon Ôl-raddedigion benderfynu bod y sail a gyflwynwyd yn annigonol i warantu Apêl. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr hyfforddai'n cael hysbysiad ysgrifenedig gan y Deon Ôl-raddedigion o fewn pum niwrnod gwaith, yn esbonio'r rhesymau pam y gwrthodwyd yr Apêl.

18. Canlyniad 4.

Os bydd hyfforddai'n cael Canlyniad 4, cofnodir hyn ar ei system E-bortffolio (ond ni fydd yn cael ei lofnodi gan y Deon Ôl-raddedigion) ac ni ddylid cymryd unrhyw gamau pellach (er enghraifft tynnu oddi ar y rhaglen hyfforddi arbenigedd, neu newid statws cyflogaeth) hyd nes bod yr amserlen ar gyfer gwneud cais am Adolygiad neu Apêl wedi mynd heibio, neu fod y broses Apêl wedi'i chwblhau ac mae'r Deon Ôl-raddedigion wedi cadarnhau'r penderfyniad gyda'r hyfforddai. Bydd y rheolwr arbenigedd perthnasol yn rhoi gwybod i'r cyflogwr fod yr hyfforddai'n ymwneud ag Apêl.

19. Symud Ymlaen i Adolygiad, neu i Wrandawriad Apêl yn Uniongyrchol

Yn gyffredinol, cam cyntaf y broses Apelio yw Adolygiad o'r penderfyniad gwreiddiol (fel yr amlinellwyd yn Rhan Un y polisi hwn). Fodd bynnag, ar ôl ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan yr hyfforddai ar adeg ei gais ynghyd â'i amgylchiadau penodol, gallai'r Deon Ôl-raddedigion benderfynu hepgor y cam Adolygiad, a symud ymlaen yn uniongyrchol i sefydlu Gwrandawriad Apêl. Yn y naill achos neu'r llall, bydd yr hyfforddai'n cael cadarnhad ysgrifenedig bod ei gais wedi cael ei ganiatáu neu ei wrthod o fewn pum niwrnod gwaith o'r

adeg y derbynnir ei gais yn Neoniaeth Cymru. Bydd y cadarnhad hwn hefyd yn datgan p'un a fydd Adolygiad, ac yna Gwrandawriad Apêl, neu Wrandawriad Apêl yn unig.

20. Cynnull Gwrandawriad Apêl

Bydd y Ddeoniaeth yn ymdrechu i gadarnhau'r cyfranogwyr a'r dyddiad ar gyfer y Gwrandawriad Apêl o fewn 4 wythnos o gytuno ar y Gwrandawriad Apêl (ar ôl i'r Adolygiad gael ei gwblhau). Gofynnir i hyfforddeion gadarnhau eu bod ar gael yn ystod y cyfnod hwn a ph'un a hoffent roi tystiolaeth yn Saesneg neu Gymraeg. Bydd p'un a yw cyfranogwyr priodol ar gael i gymryd rhan yn y Gwrandawriad yn effeithio ar y dyddiad a bennir, yn enwedig o ran arbenigeddau llai. Rhoddir gwybod i'r hyfforddai am y cyfyngiadau hyn pan fydd yn gofyn am Wrandawriad Apêl.

21. Cyfranogwyr Priodol mewn Gwrandawriadau Apêl

Ni fydd aelodau'r Panel ARCP a ddyfarnodd y Canlyniad 3 neu 4 **mwyaif diweddar**, o dan unrhyw amgylchiadau, yn rhan o'r panel Gwrandawriad Apêl. Penodir y Cadeirydd gan y Deon Ôl-raddedigion, a bydd yn uwch aelod o Ddeoniaeth Cymru. Bydd y Cadeirydd a'r rhestr ganlynol o gyfranogwyr yn pennu'r argymhelliad ar gyfer y Deon Ôl-raddedigion yn ystod y Gwrandawriad Apêl:

- cynrychiolydd Coleg/cyfadran o'r tu allan i Gymru;
- Ymgynghorydd/Meddyg Teulu o Gymru sy'n gweithio yn yr un arbenigedd â'r hyfforddai;
- Ymgynghorydd/Meddyg Teulu o Gymru sy'n gweithio mewn arbenigedd gwahanol;
- hyfforddai blwyddyn olaf o Gymru sy'n gweithio mewn arbenigedd gwahanol;
- cynrychiolydd lleig wedi'i gymeradwyo gan Ddeoniaeth Cymru.

Bydd y Tîm TPG yn sicrhau bod gwiriadau cymhwysedd priodol yn cael eu cynnal ar gyfer holl gyfranogwyr (ac eithrio'r hyfforddai) Gwrandawriad Apêl, gan gynnwys: datganiad o wrthdaro buddiannau a thystysgrif ddilys o hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ystyrir egwyddorion Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth ddewis aelodau'r Gwrandawriad Apêl. Bydd y rhai a benodir wedi cael hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth o fewn y tair blynedd diwethaf. Bydd cynrychiolydd o gyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol y cyflogwr ar gael i gynghori'r Cadeirydd ar faterion cyfle cyfartal (er enghraifft).

Mewn arbenigeddau llai, efallai na fydd modd osgoi gwybodaeth flaenorol am yr hyfforddai; mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Cadeirydd arfaethedig yn ymgynghori â'r Deon Ôl-raddedigion ynghylch p'un a ddylai'r gyfryw wybodaeth flaenorol eithrio unrhyw gyfranogwr posibl o'r Gwrandawriad. Y Deon Ôl-raddedigion fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Gall y Deon Ôl-raddedigion gyflogi cynrychiolaeth gyfreithiol mewn cysylltiad ag unrhyw Apêl er mwyn cael neu ddarparu arbenigedd cyfreithiol ar gyfer, neu yn ystod, y Gwrandawriad Apêl.

Mae gan hyfforddeion yr hawl i fynychu'r Gwrandawriad Apêl ac esbonio'r rheswm/rhesymau datganedig am eu Hapêl. Gallant hefyd ddewis cael eu cynrychioli gan (er enghraifft) frind,

cydweithiwr neu gynrychiolydd eu corff proffesiynol. Fodd bynnag, nid yw'n beth doeth i aelod o'r teulu fynd gyda'r hyfforddai.

Mae'n rhaid i'r hyfforddai roi manylion ysgrifenedig i'r Ddeoniaeth am unrhyw gynrychiolydd y mae'n dymuno iddo ddod gydag ef i'r Gwrandawriad Apêl o leiaf ddeng niwrnod gwaith cyn y Gwrandawriad Apêl. Os na fydd yr hyfforddai'n darparu'r cyfryw gadarnhad, bydd y cynrychiolydd yn cael ei eithrio o'r Gwrandawriad Apêl.

22. Opsiwn i symud ymlaen os disgwylir oedi

Mae angen lleihau oedi wrth bennu dyddiad gymaint â phosibl. Mae'r ansicrwydd i bawb sy'n gysylltiedig (gan gynnwys y cyflogwr) yn golygu bod angen ymagwedd fwy hyblyg os yw oedi'n debygol o ymestyn y tu hwnt i'r raddfa amser 4 wythnos a argymhellir. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd Cadeirydd y Gwrandawriad Apêl yn ysgrifennu at yr hyfforddai gan roi'r dyddiad a chadarnhau pwy sy'n gallu mynychu. Rhoddir opsiwn i'r hyfforddai symud ymlaen â'r trefniant diwygiedig neu aros i'r tîm TPG sicrhau presenoldeb llawn.

Dylai'r hyfforddai geisio cynqor cyn cadarnhau i Ddeoniaeth Cymru sut mae'n dymuno symud ymlaen. Bydd angen cadarnhau o fewn 5 niwrnod gwaith o dderbyn y llythyr i osgoi oedi pellach.

Os bydd yr hyfforddai'n cytuno, bydd y trefniadau i gynnal y Gwrandawriad Apêl yn symud ymlaen; os na, bydd y tîm TPG yn parhau i sicrhau presenoldeb llawn ar y dyddiad diweddarach mwyaf amserol.

23. Y Pecyn Gwybodaeth Apêl

Bydd y tîm TPG yn coladu'r holl wybodaeth berthnasol ar gyfer yr Apêl mewn Pecyn Gwybodaeth Apêl. Pan fydd yn gwneud cais am Apêl, bydd yr hyfforddai'n rhoi caniatâd i'r pecyn gynnwys gwybodaeth berthnasol ynglŷn â'i gynnydd addysgol, fel nodiadau cyfarfodydd addysgol a chofnodion ar ei E-bortffolio. Ni fydd y wybodaeth hon wedi'i chyfyngu i gyfnod y Canlyniad ARCP cyfredol. Bydd y wybodaeth yn aros yn gyfrinachol i staff perthnasol Deoniaeth Cymru ac at ddibenion y Gwrandawriad Apêl.

Bydd copi o'r Pecyn Gwybodaeth Apêl cyfan yn cael ei anfon drwy'r post cofrestredig at bawb sy'n cymryd rhan yn y Gwrandawriad Apêl o fewn pum niwrnod gwaith cyn y Gwrandawriad. Bydd angen rhoi cadarnhad ysgrifenedig o bresenoldeb i'r Tîm TPG i ddangos bod y pecynnau gwybodaeth wedi cael eu derbyn.

24. Adroddiad Deoniaeth Cymru

Bydd Cyfarwyddwr y Rhaglen Hyfforddi o arbenigedd yr hyfforddai, neu gynrychiolydd arall, mewn cysylltiad â'r rheolwr arbenigedd, yn cydlynu Adroddiad Deoniaeth Cymru. Bydd Adroddiad Deoniaeth Cymru yn cael ei gynnwys yn y Pecyn Gwybodaeth Apêl sydd ar gael i bawb sy'n mynychu'r Gwrandawriad Apêl. Bydd Adroddiad Deoniaeth Cymru yn gwneud

syllwadau ar y materion a godwyd gan yr hyfforddai ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i hanes hyfforddi'r hyfforddai neu'r Apêl. Bydd y tîm TPG yn darparu templed i helpu i'w gwblhau.

25. Tystiolaeth Ategol Ychwanegol

Caiff yr hyfforddai gyflwyno gwybodaeth ychwanegol benodol yn ysgrifenedig hefyd, gan ddefnyddio'r Ffurflen Gais Ychwanegol Apêl i gyd-fynd â gwybodaeth a gyflenwyd yn flaenorol. Bydd tystiolaeth yn cael ei hystyried dim ond os yw'n berthnasol i'r sail dros Apelio. Mae canllawiau a rhestr wirio ar gyfer cyflwyno gwybodaeth ychwanegol ar gael ar wefan Deoniaeth Cymru o dan '*Appeals Process*'. Mae'n hanfodol bod y dystiolaeth hon yn cael ei derbyn o fewn deng niwrnod gwaith o'r Gwrandawriad Apêl. Bydd tystiolaeth a gyflwynir yn hwyr yn cael ei hystyried gan y Cadeirydd, a fydd yn penderfynu p'un ai ei chynnwys yn y wybodaeth gyffredinol a ystyrir yn y Gwrandawriad.

Mae'n well gan Ddeoniaeth Cymru fod hyfforddeion yn mynychu'r Gwrandawriad. Os nad yw'r hyfforddai neu ei gynrychiolydd yn gallu mynychu'r Gwrandawriad Apêl a drefnwyd, yna, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, mae'r Cadeirydd yn debygol o ddewis symud ymlaen yn ei absenoldeb. Mae gan yr hyfforddai, gan wybod cyn y Gwrandawriad Apêl y bydd yn absennol, hawl i wneud sylwadau yn ysgrifenedig, ar yr amod bod y cyfryw sylwadau'n cael eu derbyn gan y Ddeoniaeth o fewn y terfynau amser ar gyfer cyflwyno tystiolaeth.

26. Ymddiswyddiad Hyfforddai

Caiff hyfforddai sy'n ymddiswyddo o'i raglen hyfforddi ofyn am Adolygiad neu Apêl o hyd ar yr amod bod ei gais o fewn y raddfa amser a bennwyd yn y polisi hwn a bod y sail yn ymwneud â'i Ganlyniad ARCP mwyaf diweddar. Bydd y Deon Ôl-raddedigion yn barnu pob achos ar ei rinweddau cyn symud ymlaen.

RHAN TRI: Y Gwrandawriad Apêl ARCP

27. Oedi neu Absenoldeb

Os bydd cyfranogwr a gytunodd yn flaenorol yn rhoi gwybod i Ddeoniaeth Cymru nad yw'n gallu mynychu mwyach cyn diwrnod y Gwrandawriad Apêl, gallai'r Cadeirydd ddewis symud ymlaen â dyddiad arfaethedig y Gwrandawriad, os yw'r tri chyfranogwr arall ar gael o hyd. Wrth ystyried y mater olaf, dylai cynrychiolydd Coleg/cyfadrann ar gyfer arbenigedd yr hyfforddai sy'n gweithio y tu allan i Gymru ac uwch gynrychiolydd o'r un arbenigedd sy'n gweithio yng Nghymru fod yn bresennol yn y Gwrandawriad.

Os bydd unrhyw gyfranogwr yn y Gwrandawriad yn cael ei oedi'n sylweddol neu os na all fynychu ar ddiwrnod y Gwrandawriad, gallai'r Cadeirydd ddewis symud ymlaen â'r Gwrandawriad, ar yr amod bod yr hyfforddai'n cytuno. Cofnodir y cytundeb hwn.

Os bydd yr hyfforddai wedi dewis symud ymlaen heb i'r holl gyfranogwyr fod yn bresennol (fel yr amlinellir yn adran 24), bydd y Cadeirydd yn ailgadarnhau gyda'r hyfforddai (neu ei gynrychiolydd, os yw'n briodol) bod yr hyfforddai wedi cydsynio i'r Gwrandawriad Apêl gael ei gynnal heb i'r holl fynychwyr argymelledig fod yn bresennol.

28. Paratoi ar gyfer y Gwrandawriad Apêl

Bydd templed ar gyfer cynnal y Gwrandawriad Apêl yn arwain y trafodion. Bydd y templed hwn yn cael ei gynnwys yn y Pecyn Gwybodaeth i sicrhau bod pawb yn gwybod sut y bydd y Gwrandawriad Apêl yn cael ei gynnal. Cyn y Gwrandawriad Apêl, bydd aelod o'r Tîm TPG yn rhoi cyngor ac yn ateb unrhyw ymholiadau a allai fod gan y Cadeirydd neu Gynrychiolydd Deoniaeth Cymru sy'n cyflwyno Adroddiad Deoniaeth Cymru ynglŷn â fformat y Gwrandawriad Apêl.

29. Egwyddorion ac Ystyried Tystiolaeth mewn Gwrandawriad Apêl ARCP

Mae penderfyniadau sy'n deillio o Wrandawriadau Apêl ARCP wedi'u seilio ar archwilio'n gytbwys a phwyso a mesur yr holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael o ran: cydymffurfio â'r broses; sail a rhesymeg dadleuon; a thegwch i hyfforddeion a'u cleifion yn y dyfodol. Mae Canlyniadau 3 a 4 yn wahanol iawn o ran canlyniadau uniongyrchol i yrfaoedd hyfforddeion yn y dyfodol. Dylai'r effeithiau posibl gwahanol hyn fod ar flaen meddyliau aelodau Paneli Adolygu ARCP, yn ogystal ag mewn Gwrandawriad Apêl ARCP.

Mae presenoldeb neu absenoldeb diffygion amlwg mewn gwybodaeth, sgiliau ac agweddau sy'n briodol i gyfnod hyfforddiant presennol hyfforddai yn faterion allweddol i'w cadw mewn cof.

Mae diogelwch cleifion yn y dyfodol yn hanfodol bwysig wrth ystyried priodoldeb naill ai rhagnodi hyfforddiant gofynnol ychwanegol posibl, neu ryddhau o hyfforddiant o bosibl. Erbyn i hyfforddeion meddygol ddod at ddiwedd eu rhaglen hyfforddi briodol, bydd angen iddynt fod wedi caffael gwybodaeth, sgiliau ac agweddau sy'n gymesur â'r cyfnod hwnnw yn eu gyrfa.

Dylai'r dystiolaeth sy'n benodol i resymau datganedig pob hyfforddai ar gyfer Apêl gael ei hystyried yn llawn yn y Gwrandawriad Apêl, a hefyd i ba raddau y mae'r dystiolaeth yn cefnogi pob un o'i haeriadau datganedig. Os yw unrhyw un *neu bob un* o'r rhesymau datganedig ar gyfer Apêl yn cael eu cefnogi gan y dystiolaeth sydd ar gael, bydd angen ystyried pwysigrwydd y rhesymau datganedig hyn, ochr yn ochr â'r holl ffactorau perthnasol eraill sy'n cael eu harchwilio yn y Gwrandawriad Apêl.

Gan ddefnyddio'r egwyddorion hyn ac ystyried cydbwysedd y dystiolaeth sydd ar gael, bydd y Cadeirydd yn pennu:

- p'un a ddylai'r Canlyniad ARCP gwreiddiol aros, neu gael ei newid;
- os yw'r Canlyniad ARCP gwreiddiol i'w newid, *sut* yn union y dylai'r Canlyniad gwreiddiol gael ei ddiwygio;
- y cyfiawnhad dros y penderfyniadau hyn.

30. Y Gwrandawriad Apêl

Nid llys barn yw Gwrandawriad Apêl a rôl y Cadeirydd yw cydlynu'r broses o glywed tystiolaeth, holi a chynnal ystyriaethau preifat. Ar ddechrau'r Gwrandawriad Apêl, bydd y Cadeirydd yn cyflwyno pawb, yn cadarnhau eu rôl ac yn cael gwybod gan gynrychiolydd yr hyfforddai, os yw'n bresennol, p'un a yw'r cynrychiolydd yn rhoi cyngor i'r hyfforddai neu'n gweithredu ar ei ran. Os yw'r hyfforddai wedi cyflogi cynrychiolydd cyfreithiol, bydd y Cadeirydd yn ailddatgan

na all y cyfreithiwr ateb cwestiynau'n uniongyrchol na chroesholi unrhyw un sy'n rhoi tystiolaeth yn y Gwrandawriad Apêl. Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau:

- bod pawb sy'n ofynnol yn bresennol, neu unrhyw amrywiad ar hyn fel y'i diffinnir yn adran 24
- y bydd y dystiolaeth a roddir yn cael ei chofnodi
- y bydd cwestiynau i'r hyfforddai (neu ei gynrychiolydd, os yw'n bresennol) a chynrychiolydd Deoniaeth Cymru yn cael eu gofyn trwy'r Cadeirydd yn unig
- y bydd argymhelliad yn cael ei wneud heddiw i'r Deon Ôl-raddedigion

Yna, gwahoddir yr hyfforddai i egluro ac esbonio'r achos y mae wedi'i gyflwyno, yn seiliedig ar y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynodd, ac ateb unrhyw gwestiynau.

Gwahoddir cynrychiolydd Deoniaeth Cymru i gyflwyno Adroddiad Deoniaeth Cymru, gan ddisgrifio cynnydd yr hyfforddai ac ateb unrhyw gwestiynau i gael eglurhad pellach.

Bydd Cadeirydd Panel ARCP rhanbarthol neu genedlaethol, os yw'r hyfforddai'n perthyn i arbenigedd perthnasol, yn gyfrifol am sicrhau bod cynrychiolydd yn y Gwrandawriad Apêl sy'n gallu cyflwyno'r rheswm dros Ganlyniad y Panel a'r Adolygiad ARCP a chynnydd yr hyfforddai.

Cynhelir gweddill y trafodion yn breifat. Gofynnir i'r Hyfforddai (neu ei gynrychiolydd, os yw'n bresennol) a chynrychiolydd Deoniaeth Cymru aros hyd nes y bydd y Cadeirydd yn cadarnhau nad oes angen gofyn rhagor o gwestiynau.

Os bydd pryderon ynglŷn ag "addasrwydd i ymarfer" yr hyfforddai yn codi yn ystod y Gwrandawriad Apêl, bydd y Cadeirydd yn codi'r rhain ar wahân gyda'r Deon Ôl-raddedigion ar ôl y Gwrandawriad Apêl.

31. Cofnod o'r Gwrandawriad Apêl

Dim ond trafodaethau sy'n ymwneud â thystiolaeth uniongyrchol gan yr hyfforddai (neu ei gynrychiolydd) a chynrychiolydd Deoniaeth Cymru a fydd yn cael ei chofnodi. Bydd yr holl gyfranogwyr (ac eithrio'r hyfforddai) yn cwblhau grid tystiolaeth i gofnodi pwyntiau allweddol a fydd yn gweithredu fel rhestr wirio i sicrhau bod holl seiliau'r Apêl wedi cael eu hystyried yn llawn. Bydd copi sain o'r recordiad yn cael ei roi i'r hyfforddai ar ddisg yn dilyn cais ysgrifenedig i Ddeoniaeth Cymru, a bydd copi'n cael ei gadw gan y Tîm TPG.

32. Mynediad at E-Bortffolio

Bydd aelod o Ddeoniaeth Cymru yn bresennol i gyrchu E-bortffolio'r hyfforddai os bydd y Cadeirydd yn gofyn am gael mynediad ato yn y Gwrandawriad Apêl.

33. Argymhelliad yr Apêl

Gall un o'r argymhellion canlynol ddeillio o Wrandawriad Apêl:

- a) Newid y penderfyniad blaenorol i Ganlyniad 1 neu Ganlyniad 6 os yw'r hyfforddai wedi cwblhau ei hyfforddiant;
- b) Newid y Canlyniad ARCP blaenorol i Ganlyniad 2 ac amlinellu'r camau pellach y mae'n rhaid eu cymryd;
- c) Newid y Canlyniad ARCP blaenorol i Ganlyniad 3 ac amlinellu'r camau pellach y mae'n rhaid eu cymryd i ddatblygu cynllun gweithredu, a dyddiad dangosol diwygiedig ar gyfer cwblhau hyfforddiant;
- (ch) Cadw penderfyniad blaenorol y Panel ARCP, sef naill ai Canlyniad 3 neu Ganlyniad 4.

Trwy broses yr Apêl, gellir penderfynu ar unrhyw adeg nad oes cyfiawnhad i'r Canlyniadau ARCP 2, 3, neu 4 gwreiddiol mwyaf diweddaraf. Os felly, bydd ffeithiau'r achos yn cael eu cofnodi a'u cadw, ond bydd y Canlyniad yn cael ei ddiwygio i ddangos y safbwynt cytunedig yn unig yn dilyn apêl. Y penderfyniad a wneir yn y Gwrandawriad Apêl yw'r llwybr mewnol olaf ar gyfer Apêl sydd ar gael i hyfforddai.

34. Hysbysu am Benderfyniad yr Apêl

Bydd Cadeirydd y Gwrandawriad Apêl a'r rheolwr TPG yn cyfarfod â'r Deon Ôl-raddedigion i drafod yr argymhelliad/argymhellion yn dilyn y Gwrandawriad Apêl. Bydd y Deon Ôl-raddedigion yn rhoi gwybod i'r hyfforddai am y penderfyniad i newid neu gynnal y canlyniad. Bydd yr hyfforddai hefyd yn cael llythyr manwl sy'n amlinellu sail resymegol y penderfyniad ac unrhyw oblygiadau sy'n deillio ohono o fewn pum niwrnod gwaith o'r Gwrandawriad Apêl. Bydd pob aelod o'r Gwrandawriad Apêl, Pennaeth yr Ysgol ar gyfer yr arbenigedd dan sylw, a Chyfarwyddwr y Rhaglen Hyfforddiant berthnasol yn cael copi o'r llythyr hwn.

35. Ryddhau o Hyfforddiant

Os Canlyniad 4 yw'r penderfyniad terfynol yn dilyn Gwrandawriad Apêl, bydd lle'r hyfforddai ar y rhaglen hyfforddi yn cael ei ollwng o ddyddiad y llythyr sy'n rhoi gwybod i'r hyfforddai am ganlyniad ei Apêl gan y Deon Ôl-raddedigion. Yn achos Hyfforddeion Meddygaeth Deulu, bydd y Ddeoniaeth hefyd yn rhoi gwybod i'r Rhestr Cyflawnwyr Meddygol fod yr hyfforddai wedi cael ei ryddhau o hyfforddiant.

36. Canlyniad 4 a newidiadau i Gontract Cyflogaeth

Bydd y rheolwr arbenigedd perthnasol yn rhoi gwybod i gyflogwr presennol ac (os yw'n berthnasol) cyflogwr nesaf yr hyfforddai am ddyddiad terfynu'r hyfforddiant. Cynghorir yr hyfforddai i gysylltu â'i gyflogwr i gadarnhau dyddiad terfynu ei gyflogaeth yn unol â'i gontract, a hefyd i geisio cyngor gyfaol.

37. Canlyniad 3 ac ymestyn hyfforddiant

Os dyfernir Canlyniad 3 yn dilyn Gwrandawriad Apêl a bod angen hyfforddiant pellach ychwanegol, bydd y Cadeirydd yn argymhell hyd yr estyniad, gan sicrhau nad yw'n fwy na'r terfynau uchaf ar gyfer estyniadau yn yr arbenigedd hwnnw.

Yr estyniadau mwyaf a ganiateir ar hyd cyfnod y rhaglen hyfforddiant yw:

- Craidd: 6 mis, a 6 mis arall ar gyfer amgylchiadau eithriadol
- Arbenigedd: 12 mis, a 12 mis arall ar gyfer amgylchiadau eithriadol
- Arbenigedd dwys (*run through*): 12 mis, a 12 mis arall ar gyfer amgylchiadau eithriadol
- Ymarfer Cyffredinol: 12 mis, a 6 mis arall ar gyfer amgylchiadau eithriadol

Bydd yr estyniad yn dechrau ar ddyddiad y llythyr sy'n rhoi gwybod i'r hyfforddai am ganlyniad ei Apêl gan y Deon Ôl-raddedigion.

Bydd estyniadau ar gyfer hyfforddeion Llai nag Amser Llawn (LTFT) ar sail pro rata ac eithrio estyniad o ganlyniad i fethu arholiad, a ddyrennir ar sail cyfnod penodol. Gall estyniadau rychwantu hyfforddiant craidd a hyfforddiant arbenigedd a gwahanol flynyddoedd hyfforddi, felly mae'n bwysig bod hyn yn cael ei gadw mewn cof wrth ystyried estyniadau er mwyn sicrhau nad eir yn fwy na'r terfynau uchaf.

Yn dilyn y Gwrandawriad Apêl, bydd cyfres o dargedau eglur a mesuradwy ar gyfer cyfnod yr estyniad yn cael eu cytuno a'u trafod gyda'r hyfforddai.

38. Cofnodi'r Canlyniad diwygiedig

Mae'r broses hon yn berthnasol i bob arbenigedd a lefel hyfforddiant, gan gynnwys Sylfaenol. Os yw canlyniad ARCP hyfforddai'n cael ei wrthdroi mewn cyfarfod Adolygu neu Wrandawriad Apêl, dylai'r camau canlynol gael eu cymryd gan y timau perthnasol ar gyfer Intrepid a'r E-bortffolio:

1) Intrepid: Dylid newid y canlyniad gwreiddiol i 'Heb ei Asesu'. Yn yr adran 'Rhesymau manwl ar gyfer y canlyniad a argymhellwyd', dylid cynnwys y canlyniad gwreiddiol a ddyfarnwyd a'r rhesymau gwreiddiol. Dylid nodi 'nid yw'r canlyniad hwn yn ddilys mwyach oherwydd fe'i newidiwyd gan banel adolygu/apêl'.

2) Intrepid: Dylid lanlwytho'r canlyniad newydd ar Intrepid gan roi dyddiad yr adolygiad neu'r apêl. Dylai dyddiadau'r cyfnod 'i' ac 'o' aros yr un fath â'r panel gwreiddiol. Yn yr adran 'Rhesymau manwl ar gyfer y canlyniad a argymhellwyd', dylid datgan y gwnaed y penderfyniad hwn yn dilyn cais am apêl. Dylid cynnwys y rhesymau ar gyfer y canlyniad yn yr adran hon. Dylid datgan 'cyfeiriwch at y ffurflen [dyddiad y panel gwreiddiol]'.

3) E-bortffolio: Dylid cysylltu â'r coleg perthnasol a gofyn iddynt ddileu'r canlyniad gwreiddiol. Dylid lanlwytho'r canlyniad newydd gan roi dyddiad yr adolygiad neu'r apêl. Dylai dyddiadau'r cyfnod 'i' ac 'o' aros yr un fath â'r panel gwreiddiol. Yn yr adran 'Rhesymau manwl ar gyfer y canlyniad a argymhellwyd', neu gyfwerth, dylid datgan y gwnaed y penderfyniad hwn yn dilyn cais am apêl. Dylid cynnwys y rhesymau ar gyfer y canlyniad yn yr adran hon.

39. Llywodraethu ac Archwilio

Dylai pawb sy'n cymryd rhan mewn Gwrandawriad Apêl (ac eithrio'r hyfforddai) dderbyn canllawiau i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Deoniaeth Cymru. Bydd y Tîm TPG yn adolygu'r trefniadau hyn yn gyson i sicrhau bod y polisi a'r gweithdrefnau wedi cael eu dilyn. Adolygir y polisi bob blwyddyn.

Bydd cronfa ddata o gysylltiadau allweddol a chofnod llywodraethu yn cael eu diweddarau gan y Tîm TPG. Cedwir y wybodaeth ganlynol gyda ffeil yr hyfforddai yn unol ag amserlen gadw Deoniaeth Cymru:

- cofnod o'r materion yn ymwneud â chynnydd yr hyfforddai;
- ffactorau lliniarol y mae'r hyfforddai wedi'u codi mewn perthynas â'r pryderon ynglŷn â'i berfformiad;
- y rhesymau am unrhyw gamau a gymerwyd;
- p'un a gyflwynwyd Apêl;
- Canlyniad yr Apêl;
- unrhyw gwynion a godwyd yn ystod yr adolygiad o'r Apêl;
- datblygiadau dilynol;
- nodiadau cyfarfodydd ffurfiol a gwrandawiadau Apêl;
- tystiolaeth o hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth a ddilynwyd gan aelodau'r Panel;
- trywydd archwilio gohebiaeth, sy'n amlygu bod ymdrechion wedi'u gwneud i gadw at amseriadau'r Canllaw Aur;
- copi o'r recordiad a/neu'r trawsgrifiad o'r Gwrandawriad Apêl;
- copi cyflawn o bortffolio dysgu'r hyfforddai.

40. Ansawdd a Pherfformiad

Bydd cydymffurfiaeth â'r polisi a chyfleoedd i wella ymarfer yn cael eu hadolygu'n gyson.

Bydd y Tîm TPG, fel mater o drefn:

- yn cysylltu â chydweithwyr pryd bynnag y cynhaliwyd apêl i amlygu gwersi a ddysgwyd, ac yna'n llunio adroddiad cryno ar gyfer Swyddogion Rheoli'r Ddeoniaeth;
- yn cadw data ar berfformiad, ac yn llunio adroddiadau sy'n amlygu cyfleoedd i wella ymarfer a pherfformiad yn erbyn safonau neu dargedau a bennwyd yn y polisi;
- yn cydlynu adolygiad o'r polisi os gofynnir am hynny gan y Deon Ôl-raddedig.

Rhagor o Wybodaeth

Mae gwefan Deoniaeth Cymru yn cynnwys tudalen bwrpasol ar faterion dilyniant hyfforddeion yn <https://www.walesdeanery.org/cy>.

Gellir cael yr holl ffurflenni angenrheidiol a rhagor o gyngor a dolenni yno.

Yn ogystal, mae tîm pwrpasol ar gyfer Llywodraethu Dilyniant Hyfforddeion o fewn Deoniaeth Cymru.

Gohebiaeth

Dylid anfon pob gohebiaeth ynglŷn ag Adolygiadau ac Apeliadau at walesdeaneryappeals@caerdydd.ac.uk neu gellir cysylltu ag aelod o Dîm TPG Deoniaeth Cymru ar **02920 687419** neu **02920 687433**.

Mae'r polisi hwn ar gael yn Saesneg hefyd ar wefan Deoniaeth Cymru neu gellir cysylltu â'r tîm TPG i gael copi ohono trwy'r cyfeiriad e-bost isod.

E-bost: walesdeaneryappeals@caerdydd.ac.uk